# ADRODDIAD 1999-2000

Adroddiad Blynyddol y Cyngor - y Deuddegfed a Phedwar Ugain

© Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru,
2000
Golygydd: Penny Fell
Cyfieithiad: Siân Roberts, Elin ap Hywel
Dylunio a Chynhyrchu: Arwel Hughes
Argraffu: Grŵp Print MWL, Pont-y-pŵl

ISBN: 0 7200 0492 6

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| RHAGAIR GAN Y LLYWYDD | 5 |
| AROLWG O'N GWEITHGAREDDAU | |
| AMGUEDDFA AC ORIEL GENEDLAETHOL CAERDYDD | |
| Archaeoleg a Nwmismateg | 8 |
| Celfyddyd | 10 |
| Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol | 12 |
| Daeareg | 14 |
| Y Llyfrgell | 15 |
| AMGUEDDFA WERIN CYMRU | 16 |
| DIWYDIANT | 18 |
| AMGUEDDFA DIWYDIANT GWLÂN CYMRU | 18 |
| AMGUEDDFA LECHI CYMRU | 20 |
| AMGUEDDFA RUFEINIG SEGONTIUM | 21 |
| AMGUEDDFA'R LLENG RUFEINIG | 22 |
| ORIEL TŶ TURNER | 22 |
| DATBLYGU | 23 |
| PRIF DDANGOSYDDION PERFFORMIAD - FFIGURAU | 24 |
| ATODIADAU: | |
| i. Llys y Llywodraethwyr a'r Cyngor | 26 |
| ii. Staff | 27 |


*Cyhoeddir y Datganiad Ariannol ar gyfer 1999-2000 yn gydymaith i'r Adroddiad hwn*



Henry Gastineau (1791 – 1876)
Gweithiau Copr Hafod (c. 1830)
*Trwy garedigrwydd Gwasanaeth Amgueddfeydd Abertawe*

# AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

## RHAGAIR Y LLYWYDD

Yn y flwyddyn 2000 y mae'n anochel ein bod ni'n meddwl am y dyfodol, p'un ai a ydym yn unigolion, yn fusnesau, neu'n sefydliadau. A'r Cynulliad Cenedlaethol yn ei ddyddiau cynnar, y mae Cymru wedi cael hwb ychwanegol i wneud hyn. Ni waeth beth yw ein cefndir neu ble rydym yn byw yng Nghymru, mae'n amhosibl atal y don o gyffro a gobaith a ddaw yn sgil milflwydd newydd. Yn fy marn i, y mae gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) rôl allweddol i'w chwarae yn y symudiad newydd hwn tua'r dyfodol. Y mae'n rhaid i ni ddatblygu ar sail ein gorffennol diwylliannol, ac nid ar wahân iddo.

Fe welwch yn nhudalennau'r adroddiad hwn iddi fod yn flwyddyn o weithgaredd cyfoethog ac amrywiol yn hanes ein saith safle. I'n hamgueddfeydd a'n horielau, bu'n flwyddyn hefyd o bwyso a mesur ein gorffennol, ac ailystyried ein dyfodol, gan ddwys asesu'r hyn sydd gennym, a chynllunio'r ffordd orau y gallwn reoli'r asedau hynny er gwasanaethu Cymru yn deilwng.




Anna Southall
*Cyfarwyddwr*

Beth ddylem ni yn AOCC ei wneud yn ystod y ganrif sydd i ddod? Mae'n ymddangos i mi fod gennym ddwy rôl. Yn gyntaf, i gadw, cynnal ac ychwanegu at y casgliadau sydd dan ein gofal, er sicrhau bod ein rhan ni o dreftadaeth y genedl yn derbyn gofal proffesiynol ac y bydd ar gael ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod. Ac yn ail, mae'n rhaid i ni ddefnyddio dulliau cyfathrebu – hen, newydd a newydd iawn – er mwyn sicrhau bod yr hyn sydd yn ein meddiant o fewn cyrraedd, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, i bawb yng Nghymru – ac yn wir y tu hwnt iddi – ni waeth beth fo'u hoedran, eu cefndir, eu diwylliant na'u moddion byw.

Ni fyddai'r cofnod a geir yn yr adroddiad hwn o'n cynnydd ar yr hyn a gyflawnwyd yn gyflawn heb grynodeb bras o'r mentrau strategol blaengar a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn.

*1. Rydym wedi parhau i ddatblygu a chyflwyno'r strategaeth ddiwydiannol gan gwmpasu ac estyn allan i bob rhan o Gymru ac er sicrhau bod Cymru yn cymryd ei lle priodol a pharchus yn hanes diwydiannol y byd.*

Y llynedd, yn dilyn y gwaith adnewyddu llwyddiannus ar Amgueddfa Lechi Cymru, buom yn canolbwyntio ar ymgynghoriad cyhoeddus yn ymwneud â'n strategaeth ddiwydiannol, ac ar ddatblygu amgueddfa diwydiant a môr newydd. Abertawe oedd y safle a ddewiswyd ac eleni rydym wedi symud yn ein blaenau'n dda iawn yn ein partneriaeth â Sir a Dinas Abertawe.



Mathew Prichard
*Llywydd*

Mae partneriaid ac asiantaethau cyllido posib eraill wedi mynegi diddordeb yn y cynllun i greu 'amgueddfa graidd', a fyddai'n ymgorffori Amgueddfa Diwydiant a Môr bresennol Abertawe, ynghyd ag orielau newydd. Bydd yr amgueddfa hon yng nghanol 'campws amgueddfaol', a fydd yn cynnwys Amgueddfa Abertawe ac yn caniatáu datblygu adeiladau hanesyddol eraill sydd eisioes yn bod i fod yn gartref i weithgareddau a rydd fynediad rhwydd a pharod, mewn gwirionedd neu drwy gyfrwng technoleg cyfathrebu gwybodaeth, i dreftadaeth Cymru. Mae gan Sir a Dinas Abertawe hefyd gynlluniau i ddatblygu dyfodol Glannau Abertawe. Ystyrir bod yr amgueddfa graidd a'r campws amgueddfaol yn hanfodol i hyrwyddo adfywiad trefol yr ardal hanesyddol bwysig hon o Abertawe ac rydym yn falch o fod yn rhan o'r project pwysig hwn yn ail Ddinas Cymru, project a fydd, yn ôl pob tebyg, yn destun cais am gymhorthdal Ewropeaidd.

Roedd y diwydiant glo yn ganolog i haeriad balch Cymru mai y hi oedd y wlad ddiwydiannol gyntaf. Ym mis Ionawr 2000, cafwyd ar ddeall bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi dyfarnu i AOCC, ar y cyd ag Amgueddfa Lofaol y Pwll Mawr, grant o £4.9 miliwn, y swm mwyaf y maent wedi'i roi i Gymru hyd yn hyn. Ceisiwyd sicrhau £1.6 miliwn yn ychwanegol o ffynonellau eraill er mwyn rhoi ar waith gynllun-gwella cyfalaf. Bydd hwn yn caniatáu i'r Pwll Mawr gymryd arno statws Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru, fel rhan o AOCC, ym mis Ionawr 2001, ac felly yn cyfoethogi AOCC yn ogystal â sicrhau dyfodol llewyrchus i'r safle eithriadol a hynod atgofus hwn.

Cwblheir triongl diwydiannol AOCC o lechi yn Llanberis yn y gogledd, glo yn y Pwll Mawr yn y de, gan Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Nrefach Felindre yng ngorllewin Sir Gaerfyrddin, sydd hefyd wedi bod yn destun cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Os yw hwn yn llwyddiannus, fel y gobeithiwn, bydd yn ein helpu i adrodd hanes 'Huddersfield' Cymru yng nghyd-destun hanesyddol dyffryn hardd afon Teifi.

*2. Byddwn yn sicrhau y gallwn ofalu am a rheoli, i'r safonau uchaf, y casgliadau a'r ystadau sydd dan ein gofal.*

Y mae ym meddiant AOCC 5.2 miliwn o arteffactau a grwpiau o sbesimenau y mae'r sefydliad yn tynnu arnynt ar gyfer ymchwil, astudio ac arddangos. Ond mae hanes yn dechrau o'r newydd bob dydd ac ni all ein casgliadau sefyll yn eu hunfan. Parhawn i gasglu ar gyfer y cenedlaethau i ddod, gan warchod ac ymchwilio ein treftadaeth fel y gallwn wella ein dealltwriaeth o'n byd a sicrhau bod yr wybodaeth honno ar gael i gynifer o bobl â phosib a'i bod yn sail i benderfyniadau cytbwys ynglŷn â'n presennol a'n dyfodol.

Ddwy flynedd yn ôl aeth AOCC ati i sefydlu Canolfan Gasgliadau newydd yn Nantgarw, conglfaen i'n strategaeth gasglu. Yn awr, rydym yn datblygu'r storfa hon, yn gyntaf drwy greu Canolfan Adnoddau Archif a fydd yn cadw archifau pwysig sydd yn ategiad i'r casgliadau; ac yn ail, yn y tymor hir, bwriadwn godi estyniad gan gadw ynddo nifer o'n casgliadau ymchwil sydd yr un mor bwysig er nad ydynt yn cael eu defnyddio mor aml. Drwy ddarparu storfeydd mwy modern a hawdd mynd atynt cynyddir y defnydd o'r casgliadau gan arbenigwyr ac aelodau o'r cyhoedd fel ei gilydd.

*3. Byddwn yn sicrhau y caiff AOCC ei weld yn gyffredinol fel sefydliad sy'n berthnasol i'r gymdeithas gyfoes, ac un sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu hen a newydd i ddiwallu anghenion ein cynulleidfaoedd.*

Cyfeiriwyd at ailddatblygiad ALC uchod. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf ailddatblygwyd Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yng Nghaerllion gam wrth gam, gwaith a ariannwyd yn bennaf drwy gyfraniadau preifat. Y flwyddyn 2000 yw pen-blwydd yr amgueddfa yn 150 oed, ac mae'r dathliadau hefyd yn cofnodi bod y gwaith o ailddatblygu'r amgueddfa lwyddiannus hon, sy'n syndod o helaeth y tu ôl i'w chyntedd clasurol cain, yn agos at ei gwblhau.



Gweithgareddau rhyngweithiol yn Oriel Glanely

Roedd y datblygiadau yn Amgueddfa Werin Cymru (AWC) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys parhau â'r gwaith o adfer Castell Sain Ffagan a'i erddi hanesyddol, ac o ailgodi'r eglwys ganoloesol o Landeilo Tal-y-bont. Dechreuwyd ar y gwaith o godi hen dŷ parod yn dyddio o 1948 a 'Tŷ'r Dyfodol'. Rhagwelir felly yr agorir nifer o atyniadau newydd derbyniol iawn yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, croesawyd Cyfarwyddwr cyntaf yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol (AOG) i Gaerdydd. Ers tro byd bu gan AWC guradur neu gyfarwyddwr; bellach mae gan AOG un hefyd. Cyrhaeddodd Michael Tooby mewn pryd i lywio agoriad Oriel Glanely, cylchfa ddarganfod ryngweithiol lle y gall ymwelwyr o bob oed drafod sbesimenau ac arteffactau, gyda chymorth arbenigwyr – yn bersonol neu drwy gymorth cysylltiadau electronig.

Buom yn araf i elwa ar dechnoleg newydd – ond, yn gynyddol, rydym wedi manteisio arni gyda brwdfrydedd. Mae'r nifer y bobl sy'n ymweld â'n safwe wedi cynyddu dros deirgwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr adroddiadau dyddiol ar waith maes byw (o'n cloddfa archeolegol a fu'n chwilio am weddillion o Oes y Llychlynwyr ym Môn, ac o daith i'r Seychelles i archwilio bywyd ar wely'r môr) gyda'r mwyaf deinamig a phoblogaidd o'n gweddalennau. Mae cynadleddau fideo wedi galluogi



Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru, Dre-fach Felindre

staff i ysgogi ysgolion a cholegau ledled Cymru. Mae'r naill dechnoleg a'r llall, ynghyd â dehongli byw, yn ymgyfuno yn Oriel Glanely, yr oriel newydd yn AOG. Mae catalogau ar y we a chronfeydd data wedi ein galluogi i ddiwallu anghenion ysgolheigion ledled y byd. Os bydd ein cais am arian i ddigideiddio ein casgliadau yn llwyddiannus, caiff y defnydd o'r ffynonellau hyn ei chwyldroi yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

*4. Byddwn yn seilio ein holl ddyheadau a'n gweithgareddau ar reolaeth effeithlon o'n hadnoddau presennol – o ran ein casgliadau a'n hystadau yn ogystal â'n hadnoddau dynol ac ariannol – er sicrhau bod AOCC yn cadw ei le fel sefydliad rhyngwladol blaengar dros Gymru.*

Dechreuodd y prif waith cynllunio ar gyfer 2007, ein canmlwyddiant, eleni. Datblygiad y Ganolfan Adnoddau Casgliadau yn Nantgarw yw'r sylfaen hanfodol ar gyfer pob cynllun hirdymor i wella'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cyhoeddus yn AOG ac AWC, ac i wella gofal am y casgliadau.

Mae ein staff, a'r buddsoddiad yn eu talentau, yn hanfodol i'n cynnydd fel amgueddfa yn yr 21ain ganrif: eleni gwelwyd cyhoeddi cynllun ad-drefnu staff er mwyn gwella arweiniad, cynyddu cydweithrediad tîm ac ymrymuso pob un o'r saith amgueddfa. Rydym hefyd wedi rhoi ar waith adolygiad o'n system raddio a chyflogau i wella ein gallu i recriwtio, datblygu a chadw staff talentog. Cadarnhaodd adolygiad o drefniadaeth y Llys, y Cyngor a'r Pwyllgorau Ymgynghorol y drefn o gynnal dau gyfarfod o'r Llys bob blwyddyn – cyfarfod y gwanwyn yn y gogledd, yn ogystal â'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir yng Nghaerdydd yn ystod yr hydref. Bellach mae aelodau o'r Cyngor yn cadeirio nifer o baneli a phwyllgorau ymgynghorol ac mae rôl rymus eu haelodau hwy fel llysgenhadon ar ran AOCC mor werthfawr â'u cyngor. Bellach mae holl waith yr amgueddfa – boed yn fynediad i'r cyhoedd neu ymchwil rynggwladol – yn cael ei gefnogi gan bwyllgorau. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl hyn, tua thrigain ohonynt, am eu hymroddiad a'u haelioni i'r amgueddfa.

Yn ystod blynyddoedd cyntaf y ganrif ôl-ddiwydiannol newydd hon ein blaenoriaeth bennaf fydd gofalu am adnoddau fel y gallwn adrodd hanes diwydiant yng Nghymru. Gan mai hon oedd y wlad gyntaf i ennill ein bywoliaeth yn bennaf drwy ddulliau diwydiannol, mae ein hanes cymdeithasol, ein diwylliant, y celfyddydau a thechnoleg wedi cael eu heffeithio'n fawr iawn gan ddiwydiant; mae ein hamgylchedd, daeareg a thirwedd i gyd wedi dylanwadu ar ein hanes diwydiannol ac wedi cael eu newid yn ddi-droi'n ôl ganddo. Mae diwydiant yn ganolog i'r stori a adroddwn am y wlad hon: bydd ail-greu'r stori honno yn ystod y degawd nesaf yn dasg heriol a chyffrous. Bu disgwyl amdani, hefyd, ers tro.

**Mathew Prichard**
**Llywydd y Cyngor**

## ARCHAEOLEG A NWMISMATEG

### *Caffael a Dehongli*

Yn ystod y flwyddyn, daeth dau Drysor trawiadol i feddiant yr Amgueddfa: celc o 3,778 o ddarnau arian bath o ddiwedd y drydedd ganrif OC, un o gelciau gorau'r cyfnod o'r Brydain Rufeinig, o Rogiet, a sêl-fodrwy aur addurnedig o'r 15fed ganrif o Raglan (y ddau le yn Sir Fynwy). Prynwyd hwy o dan Ddeddf Trysor 1996, sydd eisoes wedi gwella'r drefn o ran cofnodi a gwarchod rhai mathau o hynafion cludadwy sy'n cynnwys arian neu aur - yn neilltuol modrwyau bysedd - a chelciau arian bath.



Modrwy Rhaglan

Mae mwyafrif mawr y darganfyddiadau archaeolegol yn dal i ddod y tu allan i gylch y Ddeddf. Felly, mae'r Llywodraeth wedi lansio cynllun i hybu pobl i fynd ati'n wirfoddol i gofnodi darganfyddiadau archaeolegol - 'Canfod ein Gorffennol'. Ar ôl gwneud cais llwyddiannus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a sicrhau cefnogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sefydlwyd cynllun peilot yng Nghymru lle mae nifer o sefydliadau yn gweithio mewn partneriaeth. Mae'r Cydlynydd Darganfyddiadau, sy'n gweithio o'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, wedi bod yn cydweithio ag amgueddfeydd lleol a'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol rhanbarthol i sefydlu rhwydwaith o ganolfannau cofnodi ledled Cymru lle gellir mynd â darganfyddiadau i'w cofnodi. Trwy gofnodi darganfyddiadau archaeolegol a wneir gan y cyhoedd, mae'r cynllun yn galluogi nifer fawr o bobl, rhai sy'n defnyddio datgelyddion metel yn bennaf, i gyfrannu at ddealltwriaeth o'n gorffennol. Ceir manylion darganfyddiadau a gofnodwyd ar y Rhyngrwyd (www.finds.org.uk).



Ffilmio gyda Julian Richards ar gyfer cyfres *Meet the Ancestors* yn Llanbedr-goch, Môn

Ym 1994, canfuwyd celc o ddarnau arian bath Rhufeinig, a gladdwyd tua OC 310, wrth osod pibellau nwy ger Pen-y-bont ar Ogwr. Diolch i nawdd gan BG Transco ccc, mae'r celc o dros 1,400 o ddarnau arian bach i'w weld mewn arddangosfa dymor hir yn yr Oriel Darnau Arian a Medalau, AOG.

Daeth coed cwch Pil Magwyr - cwch o'r 13eg ganrif - yn ôl o Ganolfan Goed Archaeolegol Efrog ym mis Rhagfyr 1999 ar ôl i waith cadwraeth gael ei wneud arnynt. Bu'r driniaeth yn eithriadol o lwyddiannus - ychydig iawn o grebachu a fu ac mae manylion wyneb y coed wedi'u cadw'n ardderchog. Cafwyd grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Esmée Fairbairn ac Ymddiriedolaeth Elusennol Laings tuag at gost y gwaith cadwraeth. Mae'r coed sydd wedi'u trin yn cael eu cadw yn y Ganolfan Gasgliadau, Nantgarw, tra bydd cynlluniau ar gyfer arddangos y cwch yn cael eu datblygu.

### *Gwaith Maes ac Ymchwil*

Yn y maes, cafwyd canlyniadau cyffrous yn y gwaith cloddio yn yr anheddiad o'r Canol Oesoedd cynnar a chyfnod y Llychlynwyr yn Llanbedr-goch, Ynys Môn. Canfuwyd tri chorff wedi'u claddu ger dau gorff arall, a ganfuwyd y flwyddyn gynt. Roeddent i gyd wedi'u gollwng yn ddigon diofal i feddau bas yn llenwad uchaf ffos y clostir, ac roedd yn ymddangos bod garddyrnau o leiaf un o'r oedolion wedi'u clymu. Roedd hyn yn ein harwain i feddwl tybed a oedd y tri oedolyn, y plentyn a'r person ifanc wedi'u dal mewn ymosodiad gan y Llychlynwyr. Bu'r BBC yn recordio'r gwaith cloddio a'r darganfyddiadau i'w cynnwys mewn cyfres o'r enw '*Meet the Vikings*' a fydd yn datgelu canlyniadau gwaith dadansoddi ar y sgerbydau. Roedd manylion y prosiect ymchwil ar gael i bawb a aeth i'r gwedalennau 'Cloddio am Lychlynwyr'. Roedd prif



Claddedigaethau o oes y Llychlynwyr a gafwyd yn y Glyn, Llanbedr-goch.

aelodau tîm y prosiect yn cyfrannu at ddyddiadur dwyieithog o'r gwaith cloddio a oedd yn disgrifio'r datblygiadau fel yr oeddent yn digwydd. Roedd y tudalennau'n boblogaidd iawn, a chawsant dros 6,500 o ymweliadau yn ystod cyfnod y cloddio.

Parhaodd y gwaith hefyd ar y safle o'r cyfnod Mesolithig Cynnar (c. 7000 CC) yn Burry Holms, Penrhyn Gŵyr. Canfuwyd llawer o ddarnau o offer cerrig ar y safle - blaenau teflynnau, llifiau ac ysgrafelli - a llawer o ddefnydd gwastraff a grëwyd wrth eu cynhyrchu. Credir y bydd samplau organig yn bwrw goleuni ar natur yr amgylchedd yn yr ardal hon, a oedd beth ffordd o'r arfordir yn ystod y cyfnod hwn.

## *Cyfle i weld*

Yn ystod Penwythnos Cenedlaethol Archaeoleg, bu'r adran yn y Pentref Celtaidd, Amgueddfa Werin Cymru. Adferwyd nifer o grefftau colledig ein cyndadau cynhanesyddol, fel mwyndoddi haearn,



Penwythnos Cenedlaethol Archaeoleg: bathu darnau arian



Penwythnos Cenedlaethol Archaeoleg: llifo a llunio deunyddiau

gwehyddu a lliwio defnyddiau, a bathu darnau arian. Yn ogystal, cafodd ymwelwyr gyfle i droi eu llaw at gloddio i ganfod y gorffennol yn ail dymor y cloddio yn Abernodwydd.

Dewiswyd dwy o'n heitemau gorau i gael eu hard-dangos mewn arddangosfeydd rhyngwladol. Aeth Cawg Aur Caergwrle, sy'n dyddio o'r Oes Efydd, ar daith i Ewrop i ymddangos yn arddangosfa Cyngor Ewrop XXV, *Duwiau ac Arwyr yr Oes Efydd: Ewrop yng Nghyfnod Wlyses*, a gynhaliwyd yng Nghopenhagen, Bonn a Pharis. Roedd tlws Oxwich - y tlws o'r bedwaredd ganrif ar ddeg sy'n addurno clawr Llawlyfr yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol - i'w weld yn ard-dangosfa '*Trésor de Colmar*' yn y Musée d'Unterlinden, Colmar (Alsace).



Breichrwy Oxwich

## CELFYDDYD

### *Arddangosfeydd*

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd dwy arddangosfa gyfoes wrthgyferbyniol, a thema ffotograffig i'r ddwy. Roedd *David Hockney: Ffotoweithiau*, arddangosfa o'r Museum Ludwig, Cwlen, yn ymdrin â'r ffordd y mae Hockney yn defnyddio ffotograffiaeth fel celfyddyd. Roedd *Mamwlad fy Nhad: Ffotograffau gan David Hurn* yn gofnod o bobl, lleoedd a bywyd yng Nghymru ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif o gamera un o'n ffoto-newyddiadurwyr pwysicaf. Bu dwy arddangosfa deithiol lai o faint o gelfyddyd o'r 18fed ganrif , darluniau Oppé a gwaith arian Gilbert, ar ymweliad â'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol hefyd.



Canolbwyntio ar ddiwylliant gweledol cyfoes Cymru a wnaeth Oriel Celf yng Nghymru yn ystod ei blwyddyn lawn gyntaf gyda dwy sioe gan grwpiau, dathliad o'r Grŵp Cymreig a *Rhai Arlunwyr o Gymru* a gasglwyd ynghyd gan Iwan Bala. Cafwyd arddangosfa arall i ddathlu gwaith Ymddiriedolaeth Derek Williams dros y deng mlynedd diwethaf. Cynhaliwyd *Ynglŷn â Swyddogaeth Gwrthrychau: cerfluniau diweddar gan Cecile Johnson Soliz* ar ddiwedd cyfnod preswyl yr artist yng Nghaerdydd. Noddwyd rhaglen yr Oriel Celf yng Nghymru trwy garedigrwydd Lloyds TSB Masnachol.

### *Caffael a gofalu am gasgliadau*

Prynodd AOCC bortread gwych Johann Zoffany o *Henry Knight o Landudwg a'i dri phlentyn*, am £1,129,038, diolch i gymynrodd y ddiweddar June Tiley, gyda chymorth ychwanegol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa'r Casgliadau Celfyddydol Cenedlaethol. Mae *Yr Actor* gan David Hockney, a brynwyd gyda chymorth Ymddiriedolaeth Derek Williams, CCCC, ac Ymddiriedolaeth Elusennol yr Anrhydeddus James Butler yn ganolbwynt ar gyfer grŵp pwysig o baentiadau gan arlunwyr o Brydain o'r 1960au sydd i'w gweld yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol erbyn hyn. Yn ogystal, prynwyd portreadau o Lewis Weston Dillwyn, sefydlydd Gwaith Tsieini Abertawe, a'r daearegwr arloesol Syr Henry de la Beche, yn ogystal â *Griffith Owen, Telynor, o Dywyn* a *Kashan*,



Gorymdaith yr Orsedd gan David Hurn



Gwneud gwaith glanhau ar *Henry Knight o Landudwg a'i dri phlentyn*

paentiad haniaethol a luniwyd gan Bridget Riley ym 1984. Ymhlith y gweithiau a gyflwynwyd trwy haelioni Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru mae golygfeydd o'r diwydiant glo gan Vincent Evans a Jack Crabtree.

Gwnaed gwaith cadwraeth ar *Y Siop Ddofednod* gan Frans Snyders, a dau baentiad gan Melchior d'Hondecoter a'u hongian yn Oriel 2 (17eg ganrif). Gwnaed gwaith cadwraeth ar lun Zoffany hefyd, ac fe ad-drefnwyd Oriel 4 (18fed ganrif).

Bu tipyn o fynd a dod yn ystod y flwyddyn. Penodwyd Andrew Renton, o'r Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol ar Lannau Mersi, yn Guradur (Celfyddyd Gymhwysol). Trwy ad-drefnu mewnol, llwyddwyd i greu dwy swydd i Guraduron Cynorthwyol yn yr adran Celfyddyd Gain, un â chyfrifoldeb am y casgliad o 30,000 o brintiadau, darluniau a lluniau dyfrlliw, a'r llall yn gyfrifol am weithiau celfyddyd a grëwyd ar ôl 1945. Bydd y Curadur Cynorthwyol hwnnw'n gweithio i gynnal a datblygu ein hymrwymiad cynyddol i gelfyddyd gyfoes Cymru. Gadawodd Dr Mark Evans, Ceidwad Cynorthwyol (Celfyddyd Gain) ers 1984, i gymryd swydd Pennaeth Paentiadau yn Amgueddfa Victoria ac Albert. Roedd yn ganolog i'r gwaith o adfer yr orielau celfyddyd yn ystod y cyfnod 1988-93 a bydd colled fawr ar ei ôl. Ymunodd Dr Ann Sumner â ni o Amgueddfa Gelfyddyd Holbourne, Caerfaddon ym mis Ebrill 2000.



*Y Siop Ddofednod* gan Frans Snyders



*Place Furstenburg, Paris, Awst 7, 8, 9, 1985* gan David Hockney

## BIOAMRYWIAETH A BYWYDEG GYFUNDREFNOL

### *Bioamrywiaeth gartref*

Bu'r Adran yn gweithio ar nifer fawr o wahanol brosiectau bioamrywiaeth eleni eto, yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae gwaith yr Adran ar lawer o elfennau allweddol y prosiectau hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, sy'n rhoi gwedd gyfoes ar y gwaith. Y prif bartneriaid yng Nghymru yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), Prifysgolion Cymru, ac Awdurdodau Unedol sy'n comisiynu neu'n cefnogi llawer iawn o astudiaethau bioamrywiaeth. Er enghraifft, mae'r CCGC yn cydariannu astudiaeth o blanhigion ffosiledig o'r Oes Garbonifferaidd Ddiweddar yn ardal Glyn Nedd, y gwnaed cais i'w chynnwys ar Restr Geosafleoedd y Byd, oherwydd ei phwysigrwydd o ran palaeobotaneg a stratigraffeg.



Ar hyd yr arfordir, cychwynnwyd prosiectau newydd ym Mae Caerfyrddin, Bae Sain Ffraid, oddi ar Ben Llŷn ac ym Mae Caerdydd, ac fe gyrhaeddodd y prosiect INTERREG ei flwyddyn olaf, gan dderbyn arian ychwanegol ar gyfer y cyhoeddiad terfynol. Yn dilyn y canmol a fu ar brosiectau blaenorol, comisiynwyd arolygon o gloddiau a phyllau gan Gynghorau Sir Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful. Cynhaliwyd arolygon o bryfetach ar y gwarchodfeydd natur tir gwlyb naturiol a gwnaed ymchwil ar gontract ar Wastadeddau Gwent ar ran Hyder. Fel rhan o brosiect "LIFE", cynhaliwyd arolygon o chwilod yn y New Forest.

### *Bioamrywiaeth dramor*

Mae partneriaethau rhyngwladol yn hanfodol hefyd er mwyn hyrwyddo a datblygu'r casgliadau. Mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol, yr Awdurdod Parciau Morol ac Awdurdod Pysgodfeydd y Seychelles, treuliwyd mis yn gwneud arolwg o amrywiaeth infertebratau y môr yn y Seychelles. Bydd y prosiect hwn yn cymharu amrywiaeth yr infertebrata mewn ardaloedd trofannol a rhai tymherus ac yn pennu man cychwyn tacsonomaidd ar gyfer poblogaethau'r mwydod gwrychog (Polychaeta) a molysgiaid y Seychelles. Rhoddwyd sylw i'r prosiect, sy'n rhan o'r Rhaglen 'Shoals of Capricorn' ar 'The Discovery Channel', yn y wasg leol ac ar ein safwe, lle cafodd y newyddion rheolaidd am y gwaith dderbyniad gwresog. Wrth i Brosiect Menter Darwin yn Nwyrain Affrica gyrraedd ei flwyddyn




Rhai o staff yr Adran yn didoli samplau yn ystod y gwaith ar Ynysoedd y Seychelles.




Bursidae, a gasglwyd ar Ynysoedd y Seychelles.



Rhai o staff yr Adran yn paratoi samplau



Gwaith ffilmio ar gyfer y sianel deledu digidol Discovery ar Ynysoedd y Seychelles.



olaf, gwnaed cais newydd llwyddiannus i gydweithio â'r Orsaf Ymchwil ar y Galapagos. Bydd y prosiect hwn yn helpu pobl y Galapagos i reoli eu casgliadau.

## *Rheoli'r casgliadau*

Roedd hyn yn dal yn uchel ar restr y blaenoriaethau ac fe gafwyd arian cyfalaf i ehangu'r system gan y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd hyn yn golygu y gellir cyflymu'r gwaith o ddogfennu'r casgliadau o gregyn, pryfetach ac infertebratau morol, ac y gellir cyrchu'r wybodaeth trwy'r Rhyngrwyd. Mae'r casgliad bryoffytau wedi'i ad-drefnu i raddau helaeth yn barod i gael ei ddogfennu ac fe symudwyd ymlaen gyda'r herbariwm o blanhigion blodeuol trwy gyhoeddi'r catalog Rubus (Mieri) a gwneud gwaith ar y casgliad Hieracium (Heboglys). Ymhlith y cyhoeddiadau ar gyfer darllenwyr cyffredinol roedd *Invasion of the Land* a *Plant Fossils*.

Penodwyd Dr Ray Tangney yn Bennaeth Botaneg Cryptogamig a Dr Lucy Hammond yn Rheolwr yr Adran, gan olygu bod staff yr Adran yn gyflawn.



Arolwg pyllau Merthyr





Amphinomidae (Mwydyn Tân), a gasglwyd ar Ynysoedd y Seychelles.

## DAEAREG


### *Cyfle i weld y casgliad*

Bu'r Adran yn brysur eleni yn cynllunio ac yn paratoi'r cyfraniadau daearegol ar gyfer Oriel Glanely - yr oriel ryngweithiol newydd. Bu'r staff yn gweithio hefyd ar nifer o'r sesiynau dangos a dehongli ar gyfer ymwelwyr, gan helpu i ddod â llawer o eitemau o gasgliad yr Adran a fu'n cael eu cadw y tu ôl i'r llenni yn fyw i ragor o ymwelwyr nag erioed o'r blaen.

Bu cyfle i weld yr arddangosfa deithiol *Deinosoriaid ar Droed* mewn rhagor o ganolfannau yn y Deyrnas Unedig - yn Amgueddfa Swydd Efrog, Efrog ac yn Amgueddfa Ulster, Belfast eleni - ac mae'n dal yn atyniad llwyddiannus a phoblogaidd.

### *Cadwraeth ddaearegol*

Mae cyrff cenedlaethol sy'n ymwneud â chadwraeth ddaearegol wedi elwa'n fawr ar gefnogaeth ac arbenigedd staff yr adran. Cwblhawyd y gwaith ar gontractau gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar bedair cyfrol o gyfres y *Geological Conservation Review*; cyhoeddwyd dwy yn ystod y flwyddyn, y naill ar stratigraffeg o'r cyfnod Cambriaidd i'r cyfnod Ordofigaidd, a'r llall ar greigiau igneaidd Caledonaidd, ac fe gafwyd cyfraniadau sylweddol gan ein staff ar gyfer y ddwy. Eleni hefyd, daeth prosiect MINESCAN i ben. Roedd hwn yn brosiect pedair blynedd ar y cyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a'r rhan olaf oedd gwneud arolwg o fwyngloddiau Morgannwg a Gwent. Rhoddwyd cyflwyniad ar MINESCAN mewn cynhadledd ym Madrid ar waith rheoli a chadwraeth ar safleoedd daearegol. Trefnodd yr Adran gyfarfod penwythnos o grŵp RIGS (Safleoedd Daearegol o Bwysigrwydd



Hen weithfeydd mwn yng Nghwm Rheidol, ger Aberystwyth. Bydd dealltwriaeth fanylach o ddyddodion mwnol Cymru yn gymorth i adnabod yr ardaloedd hynny sydd dan y bygythiad amlycaf gan ddyfroedd mwn asidig - dyma un o brif amcanion y project Minescan.

Rhanbarthol) Cymru, lle bu aelodau o'r staff yn cyflwyno papurau ac yn arwain taith faes.

### *Cydweithrediad rhyngwladol*

Gwnaeth staff yr Adran ragor o waith rhyngwladol eleni gydag ymweliadau ymchwil â'r Ariannin, China ac Uruguay, gyda chymorth grantiau teithio oddi wrth Gymdeithas Frenhinol Llundain a Chyngor Ymchwil Cenedlaethol yr Ariannin. Rhoddwyd cyflwyniadau mewn cynadleddau rhyngwladol ym Mhrâg a Kraków. Parhawyd â chysylltiad




Creigiau o'r cyfnod Cambriaidd yn *Precordillera* Gorllewin yr Archentyn

Dr. M.G. Bassett â Sweden gydag ymweliadau â Stockholm ac Uppsala, a gwaith maes yn Gotland. Cafodd ddoethuriaeth er anrhydedd o Brifysgol Uppsala ym mis Ionawr 2000 i gydnabod ei waith mawr ym maes paleontoleg a'i gyfraniadau i'r brifysgol dros gyfnod o bum mlynedd ar hugain.

## *Casgliadau*

Ymhlith y casgliadau arwyddocaol a ddaeth i feddiant yr Amgueddfa mae casgliad da o aur Cymreig gwaddodol o ardal Dolgellau, yn cynnwys dau gnapyn eithriadol eu maint, sydd i'w gweld yn yr oriel Esblygiad Cymru, a chasgliad ymchwil sylweddol o gwrelau Silwraidd o'r Gororau, gyda llenyddiaeth gysylltiedig, sef gwaith oes gan Dr C.T. Scrutton o Brifysgol Durham.




*Paradechenella lunata*, rhywogaeth ffosil newydd (trilobit) o greigiau'r cyfnod Defonaidd ym Mongolia Fewnol.

Ar ôl dwy flynedd o hyfforddiant a llwyddo yn ei harholiadau Diploma, dyfarnwyd Cymrodoriaeth Cymdeithas Emolegol a Labordy Profi Gemau Prydain Fawr i Ms S.L. Chambers. Mae hyn yn golygu bod gennym aelod o staff sy'n arbenigo mewn maes lle ceir llawer o ymholiadau gan y cyhoedd. Ymddiswyddodd Mrs D.G. Evans ar ôl 18 mlynedd o wasanaeth (1973-79; 1988-2000); yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth gyfraniad gwerthfawr fel drafftsmones fapiau, ac fel curadur casgliad yr Adran o fapiau.

## Y LLYFRGELL

Hon oedd blwyddyn weithredol gyntaf system gyfrifiadurol y Llyfrgell. Mae pob eitem sy'n cael ei derbyn i'r Amgueddfa yn cael ei chofnodi'n otomatig ar y system hon, ac fe gychwynnwyd nifer o brosiectau gyda'r nod o ychwanegu rhai meysydd allweddol i'r cofnod. Hyd yma, mae'r rhain yn cynnwys llyfrau a dderbyniwyd rhwng 1996-99, rhan o'r casgliadau o lyfrau prin, a'r adran astudiaethau amgueddfa.

Daeth dau lyfr gan Humphrey Lhuyd, ysgolor Elisabethaidd o Sir Ddinbych, y naill wedi'i gyhoeddi ym 1573 a'r llall ym 1584, i feddiant yr Amgueddfa. Mae adroddiad William Gilpin am Ogledd Cymru (1809) a chopi cyflawn o *Principal Rivers of Wales* (1813-5) gan John George Wood yn ychwanegiadau gwerthfawr at y casgliad o lyfrau ar dopograffi Cymru.



Gweithfeydd Haearn Cyfarthfa, Merthyr Tudful, o *Principal Rivers of Wales* gan Wood.

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU

### *Gwaith Curadurol, Cadwraeth ac Ail-adeiladu*

Am y tro cyntaf, nid ar dir Amgueddfa Werin Cymru y cafodd prif brosiect adeiladu'r amgueddfa ei gynnal eleni, ond bron i ddau can milltir o Sain Ffagan, yn Amgueddfa Lechi Cymru. Llwyddwyd i symud pedwar o dai chwarelwyr o Danygrisiau i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis fel rhan o gynllun a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ail-ddatblygu'r safle. Bu staff o Uned Adeiladau Hanesyddol yr Amgueddfa Werin yn goruchwylio'r contractwyr arbenigol Dimbylow Crump wrth iddynt symud yr adeiladau a bu staff o'r Adran Bywyd Cartref a'r Economi Gwledig yn gwneud gwaith ymchwil, yn casglu arteffactau ac yn para-toi'r adeiladau ar gyfer eu harddangos. Mae'r tai, sydd wedi'u dodrefnu yn null gwahanol gyfnodau yn eu hanes, yn eithriadol o boblogaidd ac yn adnodd addysgol gwerthfawr.

Cynllun arall sy'n wahanol iawn i weithgareddau arferol yr Amgueddfa Werin yw'r prosiect i adeiladau Tŷ'r Dyfodol yn Sain Ffagan. O gofio mai un o brif amcanion amgueddfa yw defnyddio'i



Mae fframwaith y tŷ, a luniwyd o dderw Cymru, yn dangos sut y mae'r adeilad hwn yn edrych i'r dyfodol ar sail technegau adeiladu traddodiadol

gwybodaeth am y gorffennol i ysbrydoli trafodaeth ddeallus am y dyfodol, defnyddiwyd casgliad yr Amgueddfa o adeiladau hanesyddol yn sail ar gyfer y prosiect arloesol a blaengar hwn. Cyhoeddodd yr Amgueddfa a BBC Cymru her i benseiri i gyfrannu mewn ffordd realistig at y drafodaeth am y ffordd y gall tai a chymdeithas ddatblygu yng Nghymru dros yr hanner can mlynedd nesaf. Byddai'n rhaid ystyried materion economaidd-gymdeithasol fel y newid ym mhatrwm teuluoedd, patrymau gwaith a hamdden newydd yn ogystal â materion sy'n ymwneud mewn ffordd fwy amlwg ag adeiladu, fel arbed ynni a bod yn gynaladwy. Cwmni penseiri o Lundain, Jestico & Whiles, a enillodd y gys-tadleuaeth a'r adeiladwyr a wynebai'r her o droi eu cynllun nhw yn dŷ go iawn oedd y cwmni Cymreig, Redrow Homes, a ddaeth yn un o brif noddwyr y prosiect. Yn eu tro, cefnogid Redrow yn hael gan dros gant o gwmniau eraill. Maent yn rhy niferus



Eglwys Teilo Sant, o Landeilo Tal-y-bont, yn cael ei hailgodi yn Amgueddfa Werin Cymru

i'w nodi'n unigol, ond roedd eu gwaith yn gwbl anhepgor i'r prosiect.

Yn ogystal â'r prosiect newydd hwn, parhaodd y gwaith ar gynlluniau adeiladu eraill yr Amgueddfa. Yn araf bach, daeth yn bosibl gweld ffurf yr eglwys o'r canol oesoedd diweddar a symudwyd o Landeilo Tal-y-bont ac mae hyn yn arwydd cynnar o'i photensial ar gyfer dehongli hanes. Symudwyd ymlaen yn raddol hefyd â'r gwaith ar yr adeilad Prefab B2 o Gaerdydd - roedd defnyddiau modern fel alwminiwm yn dipyn o her i staff yr Uned Adeiladau Hanesyddol oedd wedi arfer defnyddio sgiliau traddodiadol! Gwnaed tipyn go lew o waith er mwyn paratoi ystafelloedd y llawr cyntaf yng Nghastell Sain Ffagan ar gyfer eu hagor i'r cyhoedd, er bod y gwaith wedi'i rwystro gan lifogydd o bryd i'w gilydd yn yr Oriel Hir a'i bod wedi cymryd cryn dipyn o amser i ddod o hyd i achos y broblem a'i datrys.



Cadwraethydd dodrefn AWC, Michael Dos Santos, yn ailgodi gwely Syr Rhys ap Thomas



Paratoi ffrog 'Cŵl Cymru' gan Jill Salen i'w harddangos yn yr Oriel Wisgoedd

## *Caffael eitemau*

Un o'r darnau mwyaf arwyddocaol o ddodrefn Cymreig i ddod ar y farchnad yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw gwely Syr Rhys ap Thomas o Derwydd House yn Sir Gaerfyrddin ac fe'i hychwanegwyd at gasgliad yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn. Er mai tua chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg y cafodd ei rhoi at ei gilydd yn ei ffurf bresennol, fe gerfiwyd y paneli cywrain yn yr unfed ganrif ar bymtheg ar gyfer Syr Rhys ap Thomas, Cymro mwyaf blaenllaw ei oes. Yn ogystal, bu'r Amgueddfa Werin yn ddigon ffodus i allu prynu cwpwrdd cerfiedig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a fu yng Nghastell Sain Ffagan o'r blaen, a hynny'n rhoi dimensiwn ychwanegol i'r cynllun ail-arddangos. Bu staff yr Amgueddfa Werin a staff curadurol a chadwraeth yn paratoi ar gyfer arddangosfeydd *Cuddfannau* a *Hanesion Hyll* yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol.

## *Digwyddiadau*

Denwyd rhyw 60,000 o ymwelwyr i'r Amgueddfa Werin i fwynhau rhaglen o ddigwyddiadau a gwyliau tymhorol, er gwaethaf y tywydd anffafriol ar rai achlysuron pwysig. Yn ffodus, nid amharwyd ar yr Ŵyl Fai (1-3 Mai) ar y thema Hanes Byw ac fe ddaeth y gweithgareddau amrywiol â bywyd i bron bob rhan o'r Amgueddfa. Mae digwyddiadau eraill fel Ffair y Goedwig ddiwedd Mai, a Gŵyl y Plant, sydd newydd ei sefydlu, ym mis Gorffennaf, yn dechrau sylweddoli eu potensial erbyn hyn. Unwaith eto, roedd Gŵyl y Glowyr (12 Mehefin) yn llwyddiant ysgubol gydag areithiau tanllyd gan Tyrone O'Sullivan o Lofa'r Tŵr, yr Aelodau Seneddol Ann Clwyd a Rhodri Morgan, a Terry Deary, awdur y gyfres o lyfrau hanes i blant, Horrible Histories. Eleni, ymestynnwyd Gŵyl y Theatr i mewn i drydedd wythnos, gyda'r lle bron yn llawn ar gyfer yr holl gynyrchiadau. Roedd dathliadau Calan Gaeaf (31 Hydref) a'r Goeden Nadolig (8 - 11 Rhagfyr) mor boblogaidd ag erioed ar ddiwedd y flwyddyn, er i'r ail ohonynt ddioddef rywfaint oherwydd y tywydd sâl.



Y Drydedd Gatrawd o Droedfilwyr ar Hugain: ail-greu symudiadau milwrol o gyfnod Napoleon ar gae Cilewent



Ail-greu naws y 1940au yn Sefydliad y Gweithwyr, Oakdale

## DIWYDIANT

### *Y gorffennol a'r dyfodol*

Penodwyd dau guradur cynorthwyol yn ystod y gwanwyn 1999, gyda chyfrifoldeb am y casgliadau glo (Ceri Thompson) a diwydiant cyfoes (Richard Davies) ac mae hyn yn arwydd o'r ffaith fod yr Adran wedi bod yn canolbwyntio dros y flwyddyn ddiwethaf ar ailadeiladu ei harbenigedd ym maes gweithgareddau curadurol a chadwraeth ac ar gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Bu aelodau o'r staff curadurol yn brysur yn cynllunio Amgueddfa newydd y Glannau yn Abertawe. Paratowyd arddangosfa deithiol ar y cynlluniau (sydd ar daith trwy Gymru ar hyn o bryd fel rhan o'r strategaeth ymgynghori â'r cyhoedd) ym mis Mai 1999, a chynllun drafft o rediad hanes yr amgueddfa newydd rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 1999. Yn ogystal, parhawyd i gydweithredu mewn modd ffrwythlon iawn ag Amgueddfa Lofaol



Gwneud gwaith cadwraeth ar lampau glowyr

y Pwll Mawr, gan baratoi at uno'r amgueddfa honno ag AOCC. Yn ystod yr hydref 1999, penderfynwyd gwerthu 126 Bute St, gan ganolbwyntio'r Adran Ddiwydiant yn y Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw. Caewyd yr oriel yn 126 Bute St. ddiwedd Mai 1999. Dechreuwyd ar raglen helaeth o waith cadwraeth a phacio ar gyfer y symud ac fe gyflogwyd cadwraethwyr ychwanegol i wneud y gwaith hwn. Dechreuwyd cynllunio ar gyfer y symud ym mis Rhagfyr 1999.



Russell Ellis, cadwraethydd (gwrthrychau trwm), yn archwilio padell forter

Yn gynnar yn 2000, ymunodd technegydd a dau gadwraethwr â staff y Ganolfan Gasgliadau, Nantgarw. Ar nodyn tristach, bu i Mr Norman Windsor, Uwch Swyddog Cadwraeth, ymddeol ym mis Mai 1999 ar ôl tair blynedd ar ddeg o wasanaeth gwerthfawr.

Bu'r Uwch Guradur yng nghynhadledd Cyngres Ryngwladol yr Amgueddfeydd Morol yn Philadelphia ym mis Medi 1999, a bu ar ymweliadau meincnodi ag amgueddfeydd morol yn Efrog Newydd a Mystic, Connecticut.

### *Rheoli Casgliadau*

Yn ystod y flwyddyn, bwydwyd cofnodion am dros 5600 o arteffactau i'r system rheoli casgliadau (CMS); yn ogystal, bu staff yn cofnodi'r eitemau a dderbyniwyd i'w harddangos yn nhai chwarelwyr Fron Haul yn Amgueddfa Lechi Cymru.

### *Derbyniadau*

Ymhlith y prif eitemau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, roedd llun ardderchog o'r llong *Pride of Wales* o Borthmadog, pedwar llun dyfrlliw o waith dur East Moors, model i raddfa 1:2500 o'r darn o Wibffordd yr A55 rhwng Mochdre a Llanfairfechan yn y Gogledd, model tebyg o gynllun gwella ffordd Pontymoel ger Pont-y-pŵl ac enghraifft o gyfrifiadur Sinclair ZX Spectrum Plus a wnaed gan AB Electronics yn Abercynon yn y 1980au.

## AMGUEDDFA DIWYDIANT GWLÂN CYMRU

Mae cynlluniau mawr ar y gweill i wneud gwelliannau yn Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru a fydd yn agor pennod newydd yn hanes y safle ei hunan a'r casgliadau cenedlaethol. Mae *Gweledigaeth ar gyfer y Mileniwm*, yr adroddiad a roddodd gychwyn ar y broses ailddatblygu yn cael ei wireddu ar hyn o bryd. Cyflwynwyd cynlluniau amlinellol ar gyfer rhan gyntaf y gwaith i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ym mis Medi 1999, ond gan fod i'r Amgueddfa ac i Gasgliadau'r Diwydiant Gwlân le allweddol yn Strategaeth Ddiwydiannol AOCC erbyn hyn, mae'r rhaglen adnewyddu eisoes wedi dechrau.

Pan sefydlwyd Melinau Cambrian gan David Lewis ym 1902, y felin sy'n wynebu'r de oedd y cyntaf iddo ei hadeiladu. Mae olion y felin gyntaf a fu ar y safle wedi'u cuddio y tu mewn i'r adeilad siâp L. Ychydig a wyddom am y felin gyntaf hon ond defnyddiwyd y ffrwd a oedd yn gyrru ei pheiriannau hi i weithio peiriannau Melinau Cambrian yn nes ymlaen. (Mae'r cafn yn dal i redeg o dan yr amgueddfa, mewn cylfat o frics, gan redeg yn ôl i Nant Bargoed hanner canllath yn nes i lawr.) Difrodwyd yr adeilad gan dân ym 1919, ac er iddo gael ei ailadeiladu, dau lawr sydd iddo erbyn hyn yn hytrach na thri. Mae'r linteli pren na losgwyd yn ulw yn dal yn ddu ac arnynt olion llosgi ac mae'r ffenestri, a ddifrodwyd gan y tân hefyd, yn llawer llai na'r rhai gwreiddiol.



Y felin wlân a Nant Bargoed



Keith Rees, technegydd, yn arddangos technegau nyddu

Adeiladwyd y felin sy'n wynebu'r gogledd rai blynyddoedd yn ddiweddarach ac ni chafodd ei difrodi gan y tân. Fodd bynnag, ym 1997, gwnaed archwiliad o'r adeiladwaith. Canfuwyd problemau, ac fe wnaed gwaith dros dro i gryfhau'r adeilad. Ar ôl i Cadw restru'r pedwar prif adeilad ar y safle, dechreuwyd gwneud gwaith atgyweirio parhaol ym mis Chwefror 2000. Ar ôl canrif o draul, roedd y broblem waethaf yn y talcen dwyreiniol a oedd 13 modfedd allan o blwm yn y pen uchaf. Mae'r wal hon wedi'i dymchwel yn awr a'i hailadeiladu. Gosodwyd copïau newydd o'r hen ffenestri ble'r oedd angen. Mae'r adeilad cyfan wedi'i gryfhau ag angorau a phinnau dur gwrthstaen, gan ddefnyddio technoleg a dulliau tebyg i'r rhai a ddefnyddiwyd wrth adfer Tŵr Brunswick yng Nghastell Windsor.

Bu'r peirianwyr ymgynghorol, Veryards Ltd., a'r prif gontractwyr, Noel T James Ltd., yn cydweithio â chrefftwyr lleol, yn cynnwys y masiyniaid Dacri a Jones o Saron. Gwnaed y gwaith i'r safonau uchaf o ran cadwraeth ac mae pawb a fu ynglŷn â'r gwaith wedi helpu i sicrhau y bydd yr adeilad yn ddiogel i'r ganrif nesaf a thu hwnt. Disgwyliwn y bydd yr arolwg o archaeoleg ddiwydiannol a gynhelir cyn hir yn rhoi gwybodaeth bwysig i ni am ddatblygiad y safle hwn a'r defnydd a wnaed ohono yn y gorffennol - gwybodaeth a fydd yn eithriadol o werthfawr wrth i ni barhau i ddehongli'r amgueddfa ddiwydiannol bwysig hon.

## AMGUEDDFA LECHI CYMRU



Staff o Amgueddfa Werin Cymru yn datgymalu tai chwarelwyr Fron Haul, yn barod i'w hailgodi yn ALC

Ar Orffennaf 28, 1999, cwblhawyd elfen fawr olaf y rhaglen o ddatblygiadau a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri yn Amgueddfa Lechi Cymru, sef agor tai chwarelwyr Fron Haul. Symudwyd y tai, garreg wrth garreg, o bentref chwarel Tanygrisiau ger Blaenau Ffestiniog, a'u hailadeiladu a'u dodrefnu i adlewyrchu tri chyfnod allweddol yn hanes y diwydiant llechi. Gwelir tystiolaeth o



Tai chwarelwyr Fron Haul yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis

